# Yr Hen Wlad

Rhif 17 Tachwedd 1997

## At Gymry Patagonia

**Mae hi'n Galan Gaeaf a'r tywydd yn debycach i Galan Mai - yr haul yn annaturiol o boeth ar adegau nes gwneud inni holi beth mewn difrif sy'n digwydd i'r tywydd. Tybed a gawn ninnau, am y tro cyntaf, Nadolig cynnes os nad poeth?**

**Daeth rhagor nag un ymateb i'r holi am y nyrsus y soniodd Bert Parry amdanynt a chawsom gyfeiriad Eurwen Puw (sydd yn byw erbyn hyn yng Nghaliffornia) gan Aira Hughes, Esquel.**

**Cafwyd yr ymateb arferol i'r gystadleuaeth ond hoffem weld rhagor. Anfonwch air os hoffech gael cystadleuaeth wahanol. Cawsom ymgais am y tro cyntaf o Comodoro Rivadavia ond yr enw a ddaeth gyntaf o'r het oedd Joyce Powell, Esquel.**

*Golygyddion: Guto a Marian Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU*


---

## Carol Nadolig


Wele gwawriodd dydd i'w gofio
Geni Seilo gorau swydd;
Wele ddynion mwy na moddion
Ddont â rhoddion iddo'n rhwydd,
Hen addewid Eden odiaeth,
Wele heddiw, ddaeth i ben;
Wele drefniad dwyfol gariad
O flaen ein llygaid heb un llen.....

Haleliwia, Haleliwia!
Aeth i'r lladdfa yn ein lle;
Haleliwia, Haleliwia!
Duw sy'n fodlon ynddo Fe,
Sain "Hosanna i Fab Dafydd"
Iesu beunydd fyddo'n ben;
Am Ei haeddiant sy'n ogoniant
Bydded moliant mwy, Amen.

Hen Garol Gymreig



**Nadolig Llawen**



# Medi ....

## yr hyn a hauwyd

Wedi'r blynyddoedd - ac wedi i ddynion fel Saunders Lewis, Gwynfor Evans, D.J. Williams, a llu o Gymry brwd eraill, lafurio yn ddygn dros gael Senedd i Gymru, 'roedd yma orfoleddu ar Fedi 18 eleni. Ni chafwyd mo'r Senedd - ond mi gafwyd Cynulliad - yr hedyn bychan a dyf maes o law, mi obeithiwn, yn Senedd go iawn.

'Doedd pawb ddim yn hapus, wrth gwrs, ond mae'n werth cofnodi a ganlyn o dudalen flaen *Y Cymro* ar Fedi 24 1997:

"Dyma fel y bu yn Llanuwchllyn am bedwar o'r gloch y bore," yn ôl Derek Williams. "Roeddwn i'n teimlo fel gwneud rhywbeth ond 'doeddwn i ddim yn gwybod beth wedi i'r canlyniad olaf ddod i mewn o Sir Gaerfyrddin.

Fe aethom ni allan i'r pentref ac ymhen ychydig 'roedd o gwmpas 30 ohonom, ac un mewn car yn canu'r corn. Ymgasglodd trigolion lleol o bob oed o glywed y sŵn wrth i'r orymdaith fynd o un tŷ i'r llall.

'Roeddem ni'n cerdded i lawr y stryd ac yn gweld ble 'roedd y posteri o blaid ac yna'n curo ar y drws....... Nid rhyw orymdaith i ddweud ein bod ni wedi gorchfygu oedd hi ond gorymdeithio mewn llawenydd oeddem ni, 'roedd pawb eisiau gwneud rhywbeth."

* * *

MEDDAI Bob Evans, Kidderminster: "....wrth wrando ar ddigwyddiadau'r noson mae cerdd Harri Webb, *Colli Iaith,* yn mynd trwy fy meddwl, yn enwedig y pennill olaf:


Cael yn ôl o borth marwolaeth
Cân a ffydd a bri yr heniaith,
Cael yn ôl yr hen dreftadaeth
A Chymru'n dechrau ar ei hymdaith.

O'r *Cymro,* Medi 24 1997

---

"Y Ddraig Goch ddyry cychwyn."

# Ar Fynydd y Cilgwyn



Llun: *Yr Hen Wlad*

Benja Lewis, Comodoro Rivadavia a Gwyn Jones, Bethel, yn yr asado a drefnwyd gan Arwel ac Eryl Humphreys, Y Cilgwyn, Carmel ger Caernarfon, yn ystod yr haf. Yr oedd Benja yn aelod o Gôr y Gaiman a ddaethai i Gymru. Syndod a rhyfeddod i ni oedd deall ei bod yn arferol gan Benja i deithio yr holl ffordd o Comodoro Rivadavia i ymarfer ar y Suliau efo'r Côr.

Gŵr Mõnica Jones yw Gwyn a daethant hwy a'r plant, i fyw i Gymru o'r Wladfa yn gynharach eleni.

# Beics

Mae'n freuddwyd gan Gymdeithas y Beics i gael rhwydwaith o 15,000 o filltiroedd o ffyrdd beics ar draws ac ar hyd gwledydd Prydain.

Mae'r Llywodraeth yn gefnogol iawn i'r cynllun er mwyn i bobl ddefnyddio llai ar eu ceir er mwyn yr amgylchedd ac er lles eu hiechyd eu hunain. Maent yn ffyddiog y bydd pedair gwaith mwy o bobl yn defnyddio beics erbyn y flwyddyn 2,015.

# Merched yn bocsio

Am y tro cyntaf fe gafwyd gornest baffio swyddogol rhwng dwy ferch - a hynny yng Nghymru. Yn Neuadd Chwaraeon Hendy-gwyn ar Dâf y digwyddodd hyn rhwng dwy ffrind un ar bymtheg oed, sef Marie Leefe a Marie Davies.

# Pabell ieuenctid

Mae cael pabell ar gyfer yr ieuenctid ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol gyn bwysiced bellach â chael y Babell Fawr ei hun. Mae'r paratoadau ar gyfer un y flwyddyn nesaf ym Mro Ogwr ar y gweill ers tro a thema'r gweithgarwch am yr wythnos fydd Pen Tost.

Bu cystadleuwyr yn llunio logo ar ei chyfer ac fe gyhoeddwyd y dydd o'r blaen mai Katie White a Natalie Lloyd o Ysgol Gyfun Pencoed ddaeth yn fuddugol.

Bydd y rhaglen yn cynnwys bandiau, perfformwyr ac artistiaid ac mae'r logo yn adlewyrchu yr ochr gerddorol a hefyd yr enw Pen Tost.

O'r *Cymro,* Hydref 8 1997

# Y tro cyntaf

Cafodd Dafydd Iwan a'r Moniars (sef grŵp pop o Ynys Môn) eu gwahodd i berfformio i Ogledd Iwerddon eleni. Yno, yn Belfast, am y tro cyntaf, y cynhelid Eisteddfod Genedlaethol Iwerddon a elwir yn *Oirechtas*. Disgwylid tua 500 i ymgeisio yn y gwahanol gystadlaethau.

'Roedd hwn yn wahoddiad swyddogol a *Stena Line* sef prif gwmni llongau fferi'r Môr Celtaidd yn noddi'r daith.

Ymddengys fod yr *Oirechtas* yn dathlu ei chanmlwyddiant eleni a bod yr hanesydd John Davies (Bwlch-y-llan) yn traddodi darlith ar hanes yr iaith Gymraeg yng Ngwesty Europa ynghanol y ddinas.

O'r *Cymro,* Hydref 22 1997

## Cwrs yn lle cosb i yrwyr Môn

Mae gan Gyngor Sir Môn fenter gyffrous ar y gweill i godi safon gyrwyr diofal. Yn sgîl hynny gobeithir lleihau damweiniau ar y ffyrdd.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn trefnu cyrsiau i ailhyfforddi'r gyrwyr yn hytrach na gwneud iddynt dalu dirwy. Mae hyfforddi disgyblion ysgolion uwchradd hefyd yn rhan o'r cynllun.

# Gefeillio gyda thref yn Y Wladfa


Mae cynlluniau ar y gweill i efeillio pentref ym Mhenrhyn Llŷn efo tref ym Mhatagonia.

Mae John Griffiths, Ysgrifennydd Cyngor Cymuned Nefyn, yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'r posibilrwydd ar ôl derbyn llythyr gan faer Puerto Madryn, Victoriano Salazar.

"Mae trigolion Puerto Madryn," meddai John Griffiths, "yn sôn am ddod i Nefyn yn y Gwanwyn i arwyddo dogfen efeillio, gan fod y dref wedi cael ei henwi ar ôl y Capten John Love Jones Parry oedd yn Farwn ar stâd Madryn oedd yn nhiriogaeth cymuned Nefyn."

O'r *Herald,* Hydref 18 1997

# Llygaid barcud



Llun: *Yr Herald*

Bydd camerau teledu yn cadw llygaid barcud ar ddigwyddiadau yng Nghaernarfon o hyn ymlaen. Gosodwyd camerau o amgylch y dref ac mae llun pob camera yn cael ei recordio ddydd a nos....


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf derbyniwyd manylion am 662 o droseddau yng nghanol tref Caernarfon - yn cynnwys 31 o ymosodiadau corfforol, 260 achos o fwrgleriaeth, 150 o ladrata o geir a 97 achos o ladrata arall, yn ogystal â 125 o achosion o niwed troseddol.

O'r *Herald,* Medi 6 1997

---

Y Doethion
Y rhain o'r dwyrain sy'n dod - i siarad
Am seren wrth Herod:
Ymholi ar gamelod
Am Un bach, y mwya'n bod.
Gwilym Herber Williams

# Carchar?



R. Alun Evans

"Rhowch fi yn y carchar," yw geiriau R. Alun Evans, sy'n un o'r dwsin o brotestwyr yn erbyn y Seisnigo sydd ar raglenni Cymraeg Radio Cymru.

R. Alun Evans, hyd yn ddiweddar, oedd Pennaeth BBC Cymru ym Mangor, ac mae ef, fel gweddill y protestwyr, yn bygwth peidio â thalu eu trwydded radio a theledu o fis Mawrth nesaf ymlaen os na cheir ateb boddhaol.

# Dysgu yn gêm

Cafodd dwy gêm fwrdd newydd, fydd yn helpu plant i ddysgu Cymraeg, grant o £500 gan Bwyllgor Datblygu'r Iaith Gymraeg, Cyngor Sir Caerfyrddin.

Syniad grŵp o rieni plant Ysgol Brynsierfel yw'r ddwy gêm. Mae modd addasu Trysor yr Wyddor a Siop yr Wyddor i ateb anghenion personol plentyn, a'u defnyddio gan Gymry Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd, a'u haddasu ar gyfer y rhai â nam ar eu golwg.

O'r *Cymro,* Hydref 8 1997

---

Mae'n ddigon hawdd dilyn Crist, yr anhawster yw dilyn ei ganlynwyr. (Ben Bowen, 1878-1903)

# Carreg ... yn codi ofn

Mae dirgelwch ynglŷn â pharsel a dderbyniwyd yn Swyddfa'r Post Conwy, sy'n honni fod carreg gafodd ei dwyn o Gastell Conwy wedi ei melltithio.

'Roedd y parsel, a gafodd ei yrru o Seland Newydd, ddechrau Medi, yn cynnwys llythyr a charreg o faint dwrn y dywedir iddi gael ei dwyn o dir y castell.



Llun Yr Herald o Carol Woodward, Swyddfa'r Post, Conwy

Yn ôl awdur y llythyr cymerodd y garreg - oedd wedi syrthio o fur y castell - yn ystod ymweliad â Chonwy i chwilio am wreiddiau'r teulu.

"Ond bron cyn gynted ag y gadawsom y dref daeth anlwc i'n rhan," meddai'r awdur. Eglurodd fod pob awyren i Seland Newydd yn llawn a'u bod wedi gorfod aros am ddyddiau yn y maes awyr; fe ddioddefasant afiechyd parhaol ar ôl cyrraedd adref; cawsant drafferthion efo cyfeillion, perthnasau a phartneriaid a throdd cydweithwyr yn anghyfeillgar; cawsant doriadau yn eu cyflogau a thorrodd y car. A ddau ddiwrnod cyn gyrru'r garreg yn ei hôl daeth ysbryd i aflonyddu arnynt yn eu cartref.

Mae'r llythyr ddaeth efo'r garreg "felltigedig" yn gofyn i staff swyddfa'r post ddychwelyd y garreg i'r castell.

O'r *Herald,* Hydref 4 1997

# Argyfwng

Galwyd ar y Llywodraeth i weithredu ar frys i ddatrys yr argyfwng difrifol sydd yn wynebu ffermwyr Cymru.

Yn ôl un Aelod Seneddol nid yw amaethyddiaeth yng Nghymru wedi ei tharo â chyfuniad mor eang o broblemau ag yn awr ers yr Ail Ryfel Byd.

O ganlyniad i hyn mae Cynog Dafis, Aelod Seneddol Plaid Cymru Ceredigion wedi galw am ddadl seneddol arbennig er mwyn dod o hyd i ateb i'r llu o broblemau sydd yn llethu amaethwyr Cymru...

O'r *Cymro,* Tachwedd 5 1997


---

Y Glowr

Caner, a rhodder iddo - glod dibrin
Y werin a'i caro;
Nydder y mawl a haeddo
I arwr glew erwau'r glo.

O *Awdl Y Glowr, Gwilym R. Tilsley*

# Gwilym R. Tilsley



**1911-1997**

Yr oedd Gwilym R. Tilsley...(a fu farw ym mis Medi), yn fardd cenedlaethol a gafodd y pleser o weld llinellau ei gerddi cadeiriol yn dod i ddefnydd poblogaidd.

Dydi hynny ddim yn digwydd yn aml ond y mae ei linellau i'r glowr wedi eu canu a'u hadrodd ddeugeiniau o weithiau ers iddynt ennill iddo gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1950 ac wedyn yn 1957 ar Gwm Carnedd.

Enillodd ei le nid yn unig fel Prifardd ond fel Archdderwydd. Bu hefyd yn olygydd *Yr Eurgrawn*, cylchgrawn y Wesleaid.

Fel gweinidog bu'n pregethu ar hyd a lled Cymru cyn ymddeol i Brestatyn yn 1975. ...'Roedd yn 86 oed.

O'r *Cymro,* Medi 10 1997

*Cwm Carnedd* (Diboblogi Cefn Gwlad)

......Adfail yw gefail y go'; - aeth ei thân
A'i hengan yn ango';
Adar gwaun a drig yno -
Y brain lle bu Senedd bro....

Wedi dysg diwyd ysgol,
Nid â neb i'r wlad yn ôl:
Chwiliant am swydd sy' rwyddach,
Mwy cydwedd â'u bysedd bach.....

Mae'r Tyddyn Du a'r Lluest, - y ffermydd
A ffarmiwyd mor onest?
"Ffeiriwyd am goed y fforest."

Wil y Maes, pa le mae ef, - na rodiodd
Gam erioed o'i gartref?
"Ddiwedd oes fe droes i'r dref."

Yn y Foelas a'r Villa - onid oes
Neb dyn a breswylia?
"Neb ond Saeson hinon ha'."

Gwilym R. Tilsley

# Te Bach... Beddgelert



Madge Hughes, Beddgelert, yn estyn teisennau cri i'r cyfeillion o'r Wladfa oedd yn aros yno ar y daith a drefnwyd gan Emyr Griffith o Gwmni Teithio EUROWALES.



Erie James a Berith Owen, Gaiman.



Rhagor o'r Wladfa efo perthnasau o Lanberis.




Eryl Jones Davies, Trelew, yn cyfarfod Sue Roberts, Bethel, Brenda Jones, Waun-fawr, a Muriel Jones, Y Felinheli, a fu yn y Wladfa eleni.

# Ar faes yr Eisteddfod



Ym mhabell Cymru-Ariannin-America: Ceris Gruffudd, May Williams de Hughes, Cathrin Williams, Olga Roberts, a'i phriod Dr Lewis Arturo Roberts. Ef gafodd yr anrhydedd o arwain seremoni Cymru a'r Byd.



Glenys Jones o'r Wyddgrug (chwaer y diweddar R. Bryn Williams) a'i meibion Dafydd a John Jones.




Mair Edwards, Llanuwchllyn, (yn y canol) efo'r Bnr. a'r Fns.Benito Jones, Gaiman.

# Cyn-longwr....
# ....... yn holi

Tra'n sgwrsio am Y Wladfa efo'r cyn-longwr Bert Parry (sy'n briod ers blynyddoedd) fe gofiodd i nifer o longwyr o Gymru - pan oeddent yn Buenos Aires yn y pumdegau - gyfarfod ag wyth o nyrsus o'r Ysbyty Prydeinig yno ac yn eu plith Eurwen Puw, (yr unig enw a gofiai). Ei gwestiwn oedd: "Ysgwn i ym mhle mae hi a beth yw hanes y nyrsus hynny erbyn hyn?"

Tybed a oes rhai ohonynt yn darllen *Yr Hen Wlad?* Os oes, cysylltwch â ni. (Gol.)

# Yng Nghlust y Teleffôn

Cydymdeimlwn â theuluoedd y canlynol yn eu colled: Fred Green, Trevelin, sydd wedi colli ei briod Vera Green; Handel Jones, Gaiman, sydd wedi colli ei briod Glenys Jones, ac Alwina Thomas, Buenos Aires sydd wedi colli ei mab yng nghyfraith, Hugo Gadea, 46 oed, yn Buenos Aires.

**Clywsom**

- fod Mõnica Jones a Gwen Humphreys wedi eu hethol yn aelodau newydd o Gymdeithas Cymry Ariannin a Gwilym Roberts wedi ei ailethol.
- fod Ellis W. Roberts, Trelew, wedi cymryd rhan mewn cyfarfod gweddi yng nghapel Y Parchedig D. Ben Rees yn Lerpwl ar Orffennaf 21 eleni, sef 22 mlynedd i'r union ddiwrnod y cymerwyd rhan yno gan ei fam, Ann Jones de Roberts, pan oedd hithau ar ymweliad o'r Wladfa â'i merch Elan.
- fod Y Canon Sam Morgan wedi dathlu pen ei flwydd yn 90 oed ar Awst 8.
- fod John Parry, "dyn y beic" am fynd ar gefn ei feic un o'r dyddiau nesaf i hel arian at y gost o godi tŷ gweinidog yn Nhrelew.
- fod Fernando Coronato (Porth Madryn), Mariana Domíngo (Trelew), Alin Jones Ericsson (Trevelin), Caren Jones (Gaiman), Mario Jones (Trelew), a Natalia Jones (Rawson) yn gweithio'n galed a llwyddiannus ar y cwrs Cymraeg yng Ngholeg Llanbedr Pont Steffan.
- fod Mrs MacDonald wedi gorfod treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty'n tra'n efo'i mab Elvey yn Aberystwyth.

# ???

Chwiliwch am yr atebion yn y papur hwn. Os anfonwch atom erbyn diwrnod olaf Hydref 1997 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir allan a gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad.*

1. Pa liw yw'r papur ynglŷn â'r Cynulliad?
2. Ym mhle y ceir "Tsipins"?
3. Pa fethiant fu yn 1979?
4. Sut mae sillafu WLGOG yn gywir?
5. O ble y daw Ceri?
6. 99 o beth?
7. Araf a herciog fel beth?
8. Ffugenw D.G. Jones.
9. Gosodwch yn y drefn gywir i gael enw cyfrol: Eiiiwllsh.
10. Pwy ddylai agor ffosydd?
11. Gerllaw pa dref 'roedd Wil nos Fawrth?
12. Enw cyntaf y ferch sy'n sôn am Punta Tombo?
13. Beth yw 9 a 12?
14. Cafodd y Fedal am yr dieorl - cywirwch.
15. Rhoddwch y geiriau a "naddodd".
16. Ym mha Eisteddfod bu Vera?
17. Pa liw yw Michael - yn ôl ei enw?
18. Dyddiaduron pwy?
19. Beth rydd gychwyn i'r dydd yn enw'r Doctor?
20. I ble'r ânt "ar droed"?

# Ofergoelion

Ydi gweld cath ddu yn croesi'r ffordd yn golygu newyddion da neu lwc dda i chwi? Ydi gweld lleuad newydd trwy ffenestr yn beth anffodus? A oedd gan y brodorion eu hofergoelion gwahanol i chwi?

Os gwyddoch am ofergoelion tebyg mae cyfle i chwi eu casglu a'u cofnodi ac efallai i gael gwobr am hynny os anfonwch hwy i'r gystadleuaeth ar gyfer y Gwladfawyr sydd yn Nhestunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru y flwyddyn nesaf.

Dyma gyfle i gystadlu ac i gofnodi ar bapur fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl fanylion am fywyd y dyddiau gynt yn y Wladfa. Y dyddiad cau yw Ebrill 1 1998. Rhoddir y cyfeiriad llawn yn y rhifyn nesaf.